# 2015/2016

# Treth y Cyngor

## Gwybodaeth Bwysig ar gyfer Talwyr Treth y Cyngor














www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Gostwng eich bil

## Pobl ag anableddau

Os oes gennych chi neu rywun sy'n byw efo chi anabledd, ac mae eich cartref wedi'i addasu i ddiwallu eu hanghenion, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer gostyngiad yn eich bil Treth y Cyngor.

## Disgownt Unigolyn Sengl

Os ydych yn byw ar ben eich hun efallai bod gennych hawl i ostyngiad o 25% ar eich bil.

## Disgowntiau arall

Efallai eich bod yn gymwys i gael disgownt os ydych chi neu rywun sy'n byw gyda chi:

1. Yn fyfyriwr llawn amser, yn astudio i fod yn nyrs fyfyriwr, prentis neu'n hyfforddai Hyfforddiant Ieuenctid;
2. Â nam meddyliol difrifol;
3. Yn weithiwr gofal ar gyflog isel, yw'n gweithio o leiaf 24 awr, yn byw yn y man lle darperir y gofal;
4. Yn unigolyn sy'n gofalu am rywun ar fudd-daliadau gwladol (am fwy na 35 awr yr wythnos) nad yw'n ŵr/gwraig iddynt, yn bartner neu'n fab/merch dan 18 oed;
5. Yn 18 neu'n 19 oed ac yn yr ysgol neu newydd adael;
6. Yn aros mewn hostel neu loches nos;
7. Yn aros mewn ysbyty, cartref gofal neu ysbyty annibynnol;
8. Yn y carchar (heblaw am y rheiny sy'n y carchar am beidio talu Treth y Cyngor neu ddirwy);
9. Yn aelod o gymuned grefyddol benodol sy'n cwrdd â meini prawf penodol
10. Rydych yn y Lluoedd Arfog ac yn berchen ar Ail Gartref yng Nghymru.

Mae gan Gonwy bwerau dewisol i amrywio gostyngiadau mewn amgylchiadau eithriadol; er enghraifft, ar ôl llifogydd, dan Adran 13a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

## Gostyngiad Treth y Cyngor

Os ydych wedi cael bil Treth y Cyngor am y swm llawn a'ch bod ar incwm isel, efallai bod gennych hawl i Gostyngiad Treth y Cyngor, sy'n gostwng faint o Dreth y Cyngor sy'n rhaid i chi ei dalu.

## Eiddo Eithriedig

Mae nifer o eiddo lle nad oes raid i chi dalu Treth y Cyngor. Maent yn cynnwys eiddo sydd:

- Heb ei ddodrefnu (eithriedig am hyd at 6 mis);
- Yn wag ac yn eiddo i elusen (eithriedig am hyd at 6 mis);
- Yn wag ac yn cael ei atgyweirio neu angen gwaith strwythurol neu addasiadau mawr (eithriedig am hyd at 12 mis)
- Wedi'i adael yn wag gan rywun sydd yn y carchar, ysbyty neu gartref gofal preswyl;
- Yn wag ac yn aros am brofeb neu lythyrau gweinyddu (a hyd at 6 mis wedyn).
- Wedi ei adael yn wag gan rywun sydd wedi symud er mwyn darparu neu dderbyn gofal personol.
- Wedi'i adael yn wag gan fyfyrwyr.
- Wedi'i ailfeddiannu
- Yn gyfrifoldeb ymddiriedolwr methdalwr
- Yn wag gan fod eu meddiannaeth wedi'i gwahardd gan y gyfraith.
- Yn aros i weinidog crefyddol symud i mewn.

## Eiddo gwag neu ail gartrefi

Pan fo eiddo wedi bod yn wag am fwy na 6 mis neu wedi'i gategoreiddio fel ail gartref, ni fyddwch yn cael disgownt.

## Diogelu Data

Rhaid i ni ddiogelu'r arian cyhoeddus rydym yn ymdrin ag o, ac felly gallwn ddefnyddio'r wybodaeth roddwyd i ni i atal a chanfod twyll. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon i'r un diben gyda Gwasanaeth Budd-daliadau'r Cyngor, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau eraill sy'n ymdrin ag arian cyhoeddus.

**Er mwyn hawlio unrhyw un o'r gostyngiadau uchod, naill ai llenwch y ffurflen ddisgownt ar y dudalen hon, neu ffoniwch Linell Gymorth Treth y Cyngor, 01492 576607 neu e-bostiwch ymholiadau.trethycyngor@conwy.gov.uk neu os ydych angen help neu gyngor ar Gostyngiad Treth y Cyngor neu Fudd-Dâl Tai, 01492 576491, neu anfonwch e-bost at budd.dal@conwy.gov.uk.**
**Os ydych eisoes yn cael gostyngiad yn eich bil trwy ddisgownt, nid oes angen gwneud cais arall.**

## Mae twyllwyr budd-dâl yn costio miliynau i ni bob blwyddyn

Mae twyll budd-dâl yn drosedd, felly os ydych yn gwybod am rywun sy'n twyllo'r system, Ffoniwch ein llinell dwyll 24 awr am ddim ac yn gyfrinachol.

**Ffôn: 0800 328 6340 neu e-bost budd.dal@conwy.gov.uk**

### FFURFLEN DDISGOWNT/ CAIS AM FFURFLEN GAIS

Eich Enw: ..........................................................................

Eich Cyfeiriad: ..........................................................................

..........................................................................

..........................................................................

..........................................................................

..........................................................................

### EICH CYFEIRNOD TRETH Y CYNGOR

(gweler eich bil): ..........................................................................

Hoffwn hawlio gostyngiad o 25% yn fy Nhreth y Cyngor gan fy mod yn unig breswylydd yr eiddo uchod, o (nodwch y dyddiad)

..........................................................................

Llofnod:..........................................................................

TICIWCH POB BOCS

### ANGENRHEIDIOL

Anfonwch y canlynol ataf:

- ☐ Ffurflen gais am Ostyngiad Anabledd
- ☐ Ffurflen gais am Gostyngiad Treth y Cyngor
- ☐ Ffurflen gais am ddisgownt arall (mae'r rhain wedi'u rhifo ar dudalen 2) - nodwch y rhif

Ar gyfer eiddo eithriedig, dylech ffonio'r Cyngor i gael rhagor o wybodaeth ar 01492 576607.

**Anfonwch y ffurflen ddisgownt hon at:**
**Y Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-dâliadau,**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,**
**Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU**

Os ydych yn hawlio unrhyw eithriadau, disgownt neu ostyngiad anabledd ac mae eich amgylchiadau'n newid, rhaid i chi roi gwybod i ni o fewn 21 diwrnod. Os nad ydych yn darparu'r wybodaeth hon, efallai bydd rhaid i chi dalu dirwy.

# Bandiau Prisio

Mae eich eiddo wedi'i roi yn un o'r bandiau canlynol – yn seiliedig ar werth eich tŷ ar 1 Ebrill 2003.

| Band Prisio | Ystod Gwerth | Bwrdeistref Sirol £ p | Heddlu £ p | Cyngor Tref/ Cymuned (cyfartaledd) £ p | Cyfanswm (cyfartaledd) £ p |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Hyd at ac yn cynnwys £44,000 | 675.41 | 156.96 | 25.10 | 857.47 |
| B | £44,001 i £65,000 | 787.97 | 183.12 | 29.28 | 1000.37 |
| C | £65,001 i £91,000 | 900.54 | 209.28 | 33.47 | 1143.29 |
| D | £91,001 i £123,000 | 1013.11 | 235.44 | 37.65 | 1286.20 |
| E | £123,001 i £162,000 | 1238.25 | 287.76 | 46.02 | 1572.03 |
| F | £162,001 i £223,000 | 1463.38 | 340.08 | 54.38 | 1857.84 |
| G | £223,001 i £324,000 | 1688.52 | 392.40 | 62.75 | 2143.67 |
| H | £324,001 i £424,000 | 2026.22 | 470.88 | 75.30 | 2572.40 |
| I | £424,001 ac uwch | 2363.92 | 549.36 | 87.85 | 3001.13 |

## Ymholiadau ac Apeliadau Ailbrisio

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Cyngor yn delio'n uniongyrchol ag apeliadau yn erbyn bandiau prisio.

Ar gyfer ymholiadau ac apeliadau ailbrisio, neu gwestiynau ynglŷn â'ch band prisio, cysylltwch â'r:

Swyddog Rhestru, Asiantaeth Swyddfa Brisio, Tŷ Glyder, d/o 339 Stryd Fawr, Bangor Gwynedd LL57 1EP

Rhif Ffôn – **03000 505505** neu anfonwch e-bost trwy wefan y Swyddfa Brisio: **www.voa.gov.uk**

Gallwch hefyd apelio os credwch nad ydych yn gymwys i dalu Treth y Cyngor; er enghraifft oherwydd nad ydych yn breswylydd nac yn berchennog, neu efallai oherwydd bod eich eiddo'n eithriedig; neu fod yr awdurdod bilio wedi gwneud camgymeriad wrth gyfrifo'ch bil. Os ydych yn dymuno apelio oherwydd hyn, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor yn gyntaf mewn ysgrifen fel bod ganddynt gyfle i ailystyried yr achos.

# Beth ydych chi’n cael am eich arian

**Byddwch yn synnu wrth weld beth rydych chi`n cael am eich Treth y Cyngor. Mae`r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio gwsanaeth rydym yn talu amdano bob dydd drwy eu bywydau. Dyma gipolwg ar y gwahanol wasanaethau a lefel y galw sy`n rhaid i`r cyngor ymateb iddo. Pob blwyddyn rydym ni yn:**

- Ailgylchu a chompostio 36,000 tunnell fetrig o ddeunydd o gasgliadau ymyl palmant, safleoedd casglu a chanolfannau ailgylchu.
- Cynnal 876 hectar o barciau, coetir a mannau agored.
- Cynnal 16,400 o lampau stryd a glanhau 2,000 o strydoedd.
- Cynnal a chadw dros 1,700 cilomedr o ffyrdd.
- Derbyn 670,000 o ymwelwyr unigryw i wefan y Cyngor.
- Edrych ar ôl 250 o blant drwy ein hadran Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Helpu tua 2,000 o aelwydydd sy’n cael budd-daliadau.
- Dysgu dros 16,000 o blant mewn 65 ysgol.
- Cynnal tua 1,000 o gynadleddau a digwyddiadau a llwyfannu tua 300 o berfformiadau yn Venue Cymru gan ddenu dros 300,000 o ymwelwyr.
- Cael dros 980,000 o ymweliadau i’n 10 o ganolfannau hamdden a phyllau nofio.

**Y llynedd hefyd gwnaethom fuddsoddi £30 miliwn mewn prosiectau cyfalaf gan gynnwys y canlynol:**

- Prosiectau Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.
- Adnewyddu Mannau Agored ac Ardaloedd Chwarae.
- Prosiect Moderneiddio Ysgolion Cynradd ac Adnewyddu Ceginau.
- Prosiect Adfywio a Glan y Môr Bae Colwyn.
- Tai Gofal Ychwanegol a Phrosiectau Cronfa Gofal Canolraddol.
- Ail-wynebu a Gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd y Sir.
- Cynlluniau Amddiffyn yr Arfordir a Lliniaru Llifogydd.
- Prosiectau Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu.
- Menter Treftadaeth Treflun Bae Colwyn.
- Darparu Addasiadau mewn Tai Sector Preifat.

# Treth y Cyngor Band D yn mhob Tref/Cymuned / Band D Co

| Taliadau Cynghorau Tref/Cymuned Town/Community Council Precepts | | CYNGOR TREF/CYMUNED TOWN/COMMUNITY COUNCIL | Treth Sylfaenol Council Tax Base | Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy Conwy County Borough Council |
|---|---|---|---|---|
| **2014/15 £** | **2015/16 £** | | | **£** |
| 177,482 | 175,382 | **Abergele** | 4,585.93 | 1,013.11 |
| 400,000 | 412,000 | **Bae Colwyn / Bay of Colwyn** | 11,133.86 | 1,013.11 |
| 6,000 | 6,000 | **Betws-y-Coed** | 261.92 | 1,013.11 |
| 8,250 | 9,000 | **Betws-yn-Rhos** | 491.80 | 1,013.11 |
| 3,000 | 3,000 | **Bro Garmon** | 322.62 | 1,013.11 |
| 5,000 | 5,000 | **Bro Machno** | 346.93 | 1,013.11 |
| 5,000 | 5,000 | **Caerhun** | 668.47 | 1,013.11 |
| 2,000 | 2,000 | **Capel Curig** | 108.94 | 1,013.11 |
| 6,500 | 8,000 | **Cerrigydrudion** | 299.29 | 1,013.11 |
| 243,697 | 249,515 | **Conwy** | 7,012.18 | 1,013.11 |
| 5,369 | 5,500 | **Dolgarrog** | 157.33 | 1,013.11 |
| 6,000 | 6,000 | **Dolwyddelan** | 253.36 | 1,013.11 |
| 6,525 | 6,525 | **Eglwysbach** | 450.14 | 1,013.11 |
| 1,896 | 1,896 | **Henryd** | 396.62 | 1,013.11 |
| 3,500 | 3,700 | **Llanddoged a/and Maenan** | 289.13 | 1,013.11 |
| 14,598 | 15,158 | **Llanddulas a/and Rhyd-y-Foel** | 758.60 | 1,013.11 |
| 436,622 | 459,897 | **Llandudno** | 9,283.00 | 1,013.11 |
| 58,000 | 64,000 | **Llanfairfechan** | 1,443.28 | 1,013.11 |
| 9,628 | 11,700 | **Llanfairtalhaiarn** | 459.66 | 1,013.11 |
| 3,750 | 3,750 | **Llanfihangel Glyn Myfyr** | 90.05 | 1,013.11 |
| 8,850 | 9,450 | **Llangernyw** | 480.74 | 1,013.11 |
| 4,200 | 4,200 | **Llangwm** | 222.17 | 1,013.11 |
| 9,000 | 8,000 | **Llannefydd** | 254.23 | 1,013.11 |
| 44,000 | 55,000 | **Llanrwst** | 1,220.52 | 1,013.11 |
| 29,000 | 29,000 | **Llansanffraid Glan Conwy** | 1,060.58 | 1,013.11 |
| 23,000 | 20,000 | **Llansannan** | 581.17 | 1,013.11 |
| 11,406 | 11,478 | **Llysfaen** | 865.22 | 1,013.11 |
| 8,900 | 8,900 | **Mochdre** | 665.13 | 1,013.11 |
| 107,000 | 125,000 | **Penmaenmawr** | 1,739.57 | 1,013.11 |
| 3,650 | 3,650 | **Pentrefoelas** | 142.97 | 1,013.11 |
| 119,750 | 119,750 | **Towyn / Bae Cinmel/Kinmel Bay** | 3,126.31 | 1,013.11 |
| 15,394 | 17,686 | **Trefriw** | 376.89 | 1,013.11 |
| 3,200 | 3,400 | **Ysbyty Ifan** | 86.32 | 1,013.11 |
| **1,790,167** | **1,868,537** | **CYFANSWM/TOTAL** | **49,634.93** | |
| **CYFARTALEDD / AVERAGE** | | | | 1,013.11 |

Ar gyfer anheddau ym Mand D yn unig y mae'r tabl uchod. Os yw eich annedd chi mewn band arall, defnyddiwch y tabl i ganfod b "cyfwerth â Band D", gan gymryd i ystyriaeth nifer yr anheddau o fewn pob band, ym mhob ardal gymunedol.
If your property falls within another property band other than Band D the information at the right of the table will help you calculat each £1 of Council Tax. It is expressed as a "Band D equivalent" and takes into account the number of properties within each band

## uncil Tax in each Town/Community

| Comisiynydd Heddlu a Throsedd G.Cymru Police & Crime Commissioner N.Wales | Cynghorau Tref/Cymuned Town/Community Council | Treth y cyngor yn ôl BAND D Council Tax at BAND D |
|---|---|---|
| £ | £ | £ |
| 235.44 | 38.24 | 1,286.79 |
| 235.44 | 37.00 | 1,285.55 |
| 235.44 | 22.91 | 1,271.46 |
| 235.44 | 18.30 | 1,266.85 |
| 235.44 | 9.30 | 1,257.85 |
| 235.44 | 14.41 | 1,262.96 |
| 235.44 | 7.48 | 1,256.03 |
| 235.44 | 18.36 | 1,266.91 |
| 235.44 | 26.73 | 1,275.28 |
| 235.44 | 35.58 | 1,284.13 |
| 235.44 | 34.96 | 1,283.51 |
| 235.44 | 23.68 | 1,272.23 |
| 235.44 | 14.50 | 1,263.05 |
| 235.44 | 4.78 | 1,253.33 |
| 235.44 | 12.80 | 1,261.35 |
| 235.44 | 19.98 | 1,268.53 |
| 235.44 | 49.54 | 1,298.09 |
| 235.44 | 44.34 | 1,292.89 |
| 235.44 | 25.45 | 1,274.00 |
| 235.44 | 41.64 | 1,290.19 |
| 235.44 | 19.66 | 1,268.21 |
| 235.44 | 18.90 | 1,267.45 |
| 235.44 | 31.47 | 1,280.02 |
| 235.44 | 45.06 | 1,293.61 |
| 235.44 | 27.34 | 1,275.89 |
| 235.44 | 34.41 | 1,282.96 |
| 235.44 | 13.27 | 1,261.82 |
| 235.44 | 13.38 | 1,261.93 |
| 235.44 | 71.86 | 1,320.41 |
| 235.44 | 25.53 | 1,274.08 |
| 235.44 | 38.30 | 1,286.85 |
| 235.44 | 46.93 | 1,295.48 |
| 235.44 | 39.39 | 1,287.94 |
| | | |
| 235.44 | 37.65 | 1,286.20 |

## Bandiau / Banding

| Annedd yn Property in | Byddwch yn Talu You Pay |
|---|---|
| BAND A | 6/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned<br>6/9ths of the Band D Charge in your Community |
| BAND B | 7/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned<br>7/9ths of the Band D Charge in your Community |
| BAND C | 8/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned<br>8/9ths of the Band D Charge in your Community |
| BAND D | Y taliad yn eich cymuned a ddangosir yn y tabl<br>The charge for your community in the table |
| BAND E | 11/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned<br>11/9ths of the Band D Charge in your Community |
| BAND F | 13/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned<br>13/9ths of the Band D Charge in your Community |
| BAND G | 15/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned<br>15/9ths of the Band D Charge in your Community |
| BAND H | Dwywaith cyfanswm taliad Band D yn eich Cymuned<br>Twice the Band D Charge in your Community |
| BAND I | 21/9fed o daliad Band D yn eich Cymuned<br>21/9ths of the Band D Charge in your Community |


beth fydd eich bil treth. Amcangyfrif o'r incwm a dderbynnir am bob £1 o Dreth y Cyngor yw'r Dreth Sylfaenol. Mynegir hyn fel

e how much you will pay. Alternatively look at your council tax bill. The Tax Base is the estimated income that will be received for
d, in each community area.

# Gwybodeth Cyllideb 2015/16

## I ble mae'r arian yn mynd

| Cost Net 2014/15 £'000 | Gwasanaeth | Gwariant 2015/16 £'000 | Incwm 2015/16 £'000 | Cost Net 2015/16 £'000 | Cost Net 2015/16 % |
|---|---|---|---|---|---|
| 95,845 | Addysg a Gwasanaethau Plant | 103,066 | (8,622) | 94,444 | 46.00% |
| 42,332 | Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 53,876 | (12,708) | 41,168 | 20.05% |
| 25,949 | Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio | 38,793 | (15,654) | 23,139 | 11.27% |
| 6,590 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 11,859 | (5,140) | 6,719 | 3.27% |
| 1,658 | Tai | 5,196 | (3,355) | 1,841 | 0.90% |
| 0 | Budd-dal Tai | 36,000 | (36,000) | 0 | 0.00% |
| 9,450 | Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor | 9,723 | 0 | 9,723 | 4.74% |
| 10,590 | Ariannu Cyfalaf | 11,519 | 0 | 11,519 | 5.61% |
| 5,837 | Ardollau | 5,828 | 0 | 5,828 | 2.84% |
| 11,653 | Gwasanaethau Eraill | 19,696 | (8,749) | 10,947 | 5.33% |
| **209,904** | **CYFANSWM GWASANAETH** | **295,556** | **(90,228)** | **205,328** | |



# Gwybodeth Cyllideb 2015/16

## O ble mae'r arian yn dod

| 2014/15 £'000 | Ffynhonell | 2015/16 £'000 |
|---|---|---|
| 120,751 | Grant Cefnogi Refeniw | 117,244 |
| 37,104 | Cyfraniad o'r GronfaCyfradd Annomestig | 34,099 |
| 47,778 | Gan y Trethdalwyr | 50,286 |
| 4,271 | Defnydd o Gronfeydd | 3,699 |
| **209,904** | **CYFANSWM NAWDD** | **205,328** |
| **(4,466)** | **BALANSAU (A DDYGWYD YMLAEN)** | **(4,466)** |
| **(4,466)** | **BALANSAU (A GARIWYD YMLAEN)** | **(2,466)** |

## Crynodeb Gwariant Cyfalaf

| 2014/15 Gwariant £'000 | Gwasanaeth | 2015/16 Rhaglen £'000 |
|---|---|---|
| 4,902 | Addysg a Gwasanaethau Plant | 7,027 |
| 2,427 | Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 119 |
| 11,621 | Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio | 12,774 |
| 4,739 | Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | 1,767 |
| 4,454 | Tai | 8,006 |
| 2,297 | Gwasanaethau Eraill | 2,538 |
| **30,440** | **CYFANSWM GWASANAETH** | **32,231** |

# Pa mor dda yw perfformiad y cyngor?

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu gwasanaethau sy'n effeithlon ac effeithiol ar eich cyfer. Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau, ac yn adrodd bob blwyddyn ar ei lwyddiannau mewn dogfen o'r enw'r Adroddiad Blynyddol sydd ar gael i chi ar ein gwefan (**www.conwy.gov.uk/adroddiadblynyddol**). Roedd ein perfformiad yn dda mewn sawl maes yn 2013/14. Perfformiad Conwy oedd un o'r gorau ymysg awdurdodau lleol Cymru mewn 19 o'r 120 dangosydd perfformiad sy'n mesur ein cynnydd. Roedd 38 o'n dangosyddion ymysg 6 chanlyniad perfformiad gorau'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Buom yn hynod lwyddiannus yn cyflawni ein targedau yn y meysydd canlynol:

- Y ganran isel o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol sy'n gadael addysg heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd.
- Canran y disgyblion a asesir yn Gymraeg, fel siaradwyr mamiaith, yng nghyfnod allweddol 2 (7-11 oed).
- Y gyfradd isel o achosion lle cafwyd oedi wrth drosglwyddo o ofal ysbyty (am resymau gofal cymdeithasol).
- Nifer y diwrnodau a gymerwyd i gyflwyno Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl (h.y. gwneud addasiadau i gartref person i'w cynorthwyo i fyw'n annibynnol a rheoli eu hanabledd).
- Sgôr uchel y Dangosydd Glendid (pa mor lân yw'r strydoedd).
- Y ganran isel o'r prif ffyrdd (A) mewn cyflwr gwael yn gyffredinol.
- Achosion difrifol a gywirwyd drwy ymyrryd er budd iechyd anifeiliaid.
- Prydlondeb yr adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Y ganran o ofalwyr ifanc y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt y darparwyd gwasanaeth iddynt.

# Rydym yn falch iawn o'n llwyddiannau yn 2014/15:

- Cymeradwywyd y Strategaeth Ddigwyddiadau ym mis Hydref 2014 a'i lansio yn Rali Cymru Prydain gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Chludiant.
- Gwnaed cynnydd da o ran lleihau allyriadau carbon – uwchraddiwyd goleuadau 82 o safleoedd ac mae cam 1 o'r prosiect i newid lampau LED yn cael ei roi ar waith ar y priffyrdd.
- Cwblhawyd Prosiect Tywysogion Gwynedd ym mis Medi 2014.
- Cynnydd yn nifer y lleoliadau gwaith a phrentisiaethau.
- Mae canlyniadau glendid stryd a chynlluniau lleihau sbwriel a baw cŵn yn perfformio'n dda er mwyn sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn lân a thaclus.
- Mae cyfarfodydd pwyllgorau allweddol yn cael eu gweddarlledu'n rheolaidd ac mae nifer o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi eu sefydlu i wella cyfathrebu â'r cyhoedd.
- Daeth Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy yn weithredol ar 30 Mehefin 2014. Mae'r wefan www.taiconwy.co.uk bellach yn fyw.
- Derbyniodd y Tîm Cyfreithiol Adolygiad Lexcel cadarnhaol iawn ac maent wedi eu cynghori i gyflwyno cais ar gyfer gwobr genedlaethol.
- Enillodd y Gwasanaeth Parciau deitl y Perfformiwr Gorau yng ngwobrau APSE am yr ail flwyddyn yn olynol (roedd 3 o dimau eraill Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau hefyd ar y rhestr fer ar gyfer gwobrau APSE).
- Enillodd Porth Eirias a Glan y Môr Bae Colwyn wobr Arloesi Cenedlaethol ICE.
- Enillodd y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol wobr Gwelliant Parhaus Cymunedol Cymru Gyfan ar gyfer y Ganolfan Iechyd.
- Enillodd Bae Colwyn wobr Stryd Fawr Prydain ar gyfer dyfodol y stryd fawr.
- Mae Stadiwm Eirias wedi ennill gwobr Braf Bob Nos.

# Moderneiddio Conwy

Yn ein Cynllun Corfforaethol, rydym wedi ymrwymo i foderneiddio ein ffordd o weithio. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi edrych ar ffyrdd o symleiddio a gwella ein gwasanaethau a'u gwneud yn fwy effeithlon. Mae pwysau galw cynyddol, disgwyliadau galw, a llai o adnoddau yn golygu bod yn rhaid i ni barhau i newid y ffordd rydym yn gweithio i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth ddefnyddio ein hadnoddau, wrth gynnal safon uchel o wasanaeth i'n trigolion.

### a) Moderneiddio gwasanaethau rheng flaen

Mae gennym raglenni ar waith i foderneiddio Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn datgloi potensial yn y gwasanaeth a rhoi bywydau gwell i gleientiaid. Rydym hefyd yn cyfuno a moderneiddio'r Gwasanaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau fel bod gennym Wasanaeth sy'n costio llai ac sy'n darparu gwasanaeth gwerthfawr i drigolion Conwy ac i'r bobl sy'n ymweld â'r sir. Mae gennym hefyd raglenni ar waith i foderneiddio ein hysgolion cynradd a'n gwasanaethau llyfrgell er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n diwallu anghenion y gymuned. Rydym wedi bod yn adolygu mannau swyddfeydd ar draws y sir a'r ffyrdd y mae ein staff yn gweithio er mwyn ail-lunio ein gwasanaethau i fodloni disgwyliadau trigolion wrth leihau ein costau, lleihau ein hôl troed carbon a darparu amgylchedd gwasanaeth mwy modern a hygyrch.

### b) Rhaglenni Adfywio

Mae gennym raglenni ar waith i wneud y gorau o gyllid er mwyn cyflawni cynlluniau adfywio ar gyfer:

- Cyffordd Llandudno
- Bae Colwyn
- Llanrwst
- Conwy

A chynlluniau ardal ar gyfer y sir gyfan.

### c) Rhaglenni Rhanbarthol

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru ac rydym yn cymryd rhan mewn nifer o raglenni rhanbarthol mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy naill ai'n eu harwain neu'n bartner ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys ymagwedd ranbarthol at:

- wneud gwelliannau mewn ysgolion.
- gwella uchelgais economaidd Gogledd Cymru.
- paratoi ar gyfer a rheoli argyfyngau.
- gweithio mewn partneriaeth rhwng Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.
- rheoli gwastraff gweddillol ac ymagwedd genedlaethol tuag at gaffael er mwyn cael y gwerth gorau am arian.